DRAFT

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 6:30 y.h. NOS IAU, Ebrill 4ydd 2019 YN SIAMBR Y CYNGOR, STRYD PENLAN, PWLLHELI.

Cof; - 0104/19 - Presennol.

Yn y Gadair Maer, Cyng. Eric W. Roberts, Cynghorwyr , A. Williams, M. Sol Owen, Parch Ioan Gruffydd, M. Parry, D. O. Jones, Elin Hywel, Mici Plwm, Ffiona Adams, E.J Hughes.

Clerc E. Price.
……..

Cof; - 0204/19 - Ymddiheuriadau.

Cynghorwyr; Dylan Bullard, Hefin Underwood, Henry Rees Williams, Elfed Gruffydd, Dr Iwan Edgar.

……
Cof; - 0304/19 - Datgan Diddordeb.

Clerc- clerc yn gadael yr ystafell yn ystod trafodaeth ar ei gyflog.

……
Cof; - 0404/19 - Gair gan y Maer.

Dim adroddiad gan y Maer.

……..

Cof; - 0504/19 - Aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

…….

Cof;- 0604/19 - Materion cyfansoddiadol a staff.

- Cytuno i newid contract printer y swyddfa.
- Cytuno i argymhellion yr is-bwyllgor ariannol a busnes parthed cyflog y clerc.

……

Cof; - 0704/19 - Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Mawrth, 2019 fel rhai cywir a llofnodwyd hwy yn unol ar gyfraith.

……..

Cof; - 0804/19 - Adroddiad clerc.

Derbyniwyd yr adroddiad . Adroddiad yn y llyfr cofnodion.

Clerc - trefnu gael mudiadau perthnasol i gyfarfod y Cyngor parthed cyffuriau yn y dref.

……..

Cof;-0904/19 – cyflwyniad gan Meleri Wyn Davies, partneriaeth Ogwen.

Partneriaeth Ogwen yn esiampl o ffordd mae Cynghorau wedi dod at ei gilydd i greu partneriaeth sydd yn gweithio er lles eu cymuned.

Maer yn diolch am y cyflwyniad.

……..

Cof;- 1004/19 - Gorchudd y Tram. Plas Glyn y Weddw yn cytuno i gyfrannu £1000.

Yn ychwanegol mae Plas Glyn y Weddw hefyd yn derbyn cyfrifoldeb i roi yswiriant blynyddol ar y gorchudd a'i gynnal a chadw.

Angen ychwaneg o ymchwil ar addasrwydd defnydd “Perspex” yn lle gwydr yn y gorchudd. “Perspex” efallai yn diriwio waeth na gwydr?

……..

Cof;- 1104/19 - Awdit o lwybrau cyhoeddus- Cyng. Michael Sol Owen.

Y clerc i gysylltu gyda’r adran berthnasol parthed y gwaith sydd ei angen, ac i gael pris gan Atkin i agor y llwybr cyhoeddus o Ben Garn i Afon Dwyryd.

…….

Cof; - 1204/19 – Cynllunio.

Cynllunio.

1. Trwydded Eiddo, Plas Boduan, Boduan, Pwllheli, Gwynedd. LL53 6DR.

Dim yn berthnasol i Cyngor Tref Pwllheli.

……..

Cof;-1304/19 - Toiledau'r dref. Cyng. Hefin Underwood.

Ar raglen Cyngor Mai.

.....

Cof;- 1404/19 - Adborth ar diwrnod agored Partneriaeth Ogwen. Cyng. Elin Hywel.

Roedd y diwrnod agored wedi dangos beth oedd yn bosib i Gynghorau sydd yn gweithio er lles yw gymuned, trwy fod yn agored i dylliau newydd o gweithredu.

.....

Cof;- 1504/19 - Lleoliad Penddelw Cynan- disgwyl ymateb ysgrifenedig.

Mae bosib bydd angen ail gysidro'r lleoliad yn y Neuadd a lleoli'r Penddelw yn y llyfrgell.

.....

Cof;- 1604/19 - Arwyddion at siopau a mannau o ddiddordeb yn y dref - Cyng. Parch Ioan Gruffydd.

Masnachwyr Stryd fawr yn gofyn am gael arwyddion sydd yn rhoi gwybodaeth i'r rhai sydd yn ymweld ar dref bod siopau yn y stryd fawr.

Clerc i lythyru'r swyddog priodol.

.....

Cof;-1704/19 - Tybiau blodau. Cyng. Henry Rees Williams.

Yn absenoldeb y cynghorydd rhannodd y clerc y wybodaeth bod SPAR y dref am roi arian bagiau plastic i'r Cyngor. Yr arian i fynd at y tybiau blodau.

.....

Cof;- 1804/19 - Baneri i'r Maes. Cyng. Henry Rees Williams.

Ymlaen i'r Cyngor nesaf.

.....

Cof; - 19-04/19 - Hysbysebu trwy gyfryngau torfol. Cyng. Alan Williams.

Codwyd pryder ar yr effaith negyddol mae gamblo yn ei gael ar unigolion ar deulu, ar hysbysebu mae bwci yn ei wneud trwy gyfryngau torfol i ddenu unigolion i amblo.

Y clerc i lythyru Liz Saville, aelod seneddol.

……

Cof 2004/19. - Marchnad Sul. Llythyr ar y bwrdd.

Penderfynu rhoi ar raglen cyngor nesaf.

.....

Cof;-2104/19 - Arwyddo contract Delwedd.

Y clerc i gael cyngor gan gomisiynydd y Gymraeg.

…….

Cof;-2204/19 - Cais am gymorth ariannol i fynd a phobl i'r feddygfa gan Ddrws i Ddrws.

Penderfynu ar gyfraniad o £200 ar yr amod bod y dogfennau perthnasol yn cael eu llenwi.

…….

Cof;-2304/19 - Cyfarfod blynyddol - enwebu Maer a dirprwy Maer.

Maer- Y Cynghorydd Eric Wyn Roberts yn cael ei gynnig gan Gynghorydd Alan Williams ac eiliwyd gan Gynghorydd E. J. Hughes.

Dirprwy Maer- Y Cynghorydd Mici Plwm yn cael ei gynnig gan Gynghorydd E. J. Hughes ac eiliwyd gan Gynghorydd Ffiona Adams.

.....

Cof;-2404/19 - Cyfraniad y cyngor at y wefan; Deall Lleoedd Cymru- Cynghorwr i ysgrifennu cyfraniad i'r wefan.

Y Parch Ioan Gruffydd yn cytuno i ysgrifennu'r cyfraniad.

.....
Cof;-2504/19

Derbyniadau - cytunwyd.

250	Rhent Adams	CR
250	Rhent Adams	CR
1033.00	Cynnal a chadw llwybrau	CR

.....

Cof;-2604/19 -Taliadau - cytunwyd.

90	Argraffdy – printhouse - cardiau busnes.	203105
1500	Clwb garddio canolfan Hamdden- s137.	203106
50	Elusen ambiwlans Cymru – s137.	203107
250	Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy – s145.	203108
50	Urdd – s145.	203109
50	Arian parod.	203110
348.17	HMRC.	203113
895.09	Costau gweinyddol rhedeg y Siambr.	sieciau

Daeth y Cyngor i ben am 8 30 y.h.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Tref Nos Iau ail o Fai 2019.

Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 26 Ebrill 2019.